# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Ystafell Gynhadledd 4B – Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 30 Medi 2025

Amser: 09.01 - 09.17

# Preifat, Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd)<br>Paul Davies AS<br>Heledd Fychan AS<br>Jane Hutt AS |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Steffan Lewis (Dirprwy Glerc) |
| Eraill yn bresennol | David Rees AS, Y Dirprwy Lywydd<br>Julian Luke, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd<br>Bethan Davies, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Marc Wyn Jones, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Llywydd yr Aelodau i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan Jane Dodds AS.

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol i'w cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

Dydd Mawrth

- Ni fydd Cyfnod Pleidleisio
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 6.00pm.

Dydd Mercher

Rhoddodd y Llywydd wybod i'r Rheolwyr Busnes y caiff yr eitemau canlynol eu hychwanegu at yr agenda, yn amodol ar gadarnhad gan y grŵp Llafur o'r Aelodau y mae'n dymuno eu henwebu:

- Cynnig i benodi Aelod i Gomisiwn y Senedd (5 munud)
- Cynnig i benodi Aelod i bwyllgor (5 munud)

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 7.00pm.

### 3.2 Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Rhoddodd y Trefnydd wybod i'r Rheolwyr Busnes am y newidiadau canlynol i amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mawrth 7 Hydref 2025**

- Datganiad gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: ~~Parodrwydd at Lifogydd y Gaeaf~~ Cynllunio i Wrthseffyll Tywydd y Gaeaf (45 munud)

- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip: Parodrwydd ar gyfer y Gaeaf – Cadw Pobl yn Gynnes y Gaeaf hwn (45 munud)
- ~~Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Awdurdodau Cyhoeddus (Twyll, Gwallau ac Adennill) (15 munud)~~ – *gohiriwyd tan 14 Hydref*

**Dydd Mawrth 14 Hydref 2025**

- Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) (Diwygio) 2025 (15 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Awdurdodau Cyhoeddus (Twyll, Gwallau ac Adennill) (15 munud)

### 3.3 Amserlen busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunodd y Rheolwyr Busnes ar y newidiadau canlynol i amserlen Busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mercher 8 Hydref 2025 –**

Cynnig i ddiddymu Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad COVID-19 Cymru (5 munud)

**Dydd Mercher 22 Hydref 2025 –**

Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Codi tâl am arddangosfeydd (60 munud)
Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
Dadl Fer: Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru) (30 munud)

### 3.4 Amserlennu Cwestiynau Amserol

Dychwelodd y Pwyllgor Busnes at drafod cynnig i symud Cwestiynau Amserol, ar sail brawf, fel y byddent yn cael eu cymryd fel yr eitem olaf cyn y Cyfnod Pleidleisio ar ddydd Mercher.

Cytunodd mwyafrif y Pwyllgor Busnes i beidio â gwneud y newid arfaethedig. Nododd y Rheolwyr Busnes y gellid ailedrych ar amserlennu Cwestiynau Amserol fel rhan o drafodaethau'r Pwyllgor Busnes, sydd ar y gweill, ar amserlennu busnes y Senedd yn y Seithfed Senedd.

## 4 Deddfwriaeth

### 4.1 Llythyr gan Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ynghylch yr amserlen ar gyfer y Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru)

Trafododd y Pwyllgor Busnes yr ymateb gan Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ar yr amserlen arfaethedig ar gyfer y Bil a chytunodd ar yr amserlen.

### 4.2 Diweddariad ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol

Trafododd y Pwyllgor Busnes ddiweddariad gan y Trefnydd a chytunodd i ymestyn y terfynau amser adrodd ar gyfer y memoranda cydsyniad deddfwriaethol canlynol:

- Bil Cynlluniau Pensiwn tan 21 Tachwedd 2025
- Bil Troseddu a Phlismona tan 21 Tachwedd 2025

Cytunodd y Pwyllgor hefyd i gyfeirio rhagblaen y memorandwm atodol (Rhif 6) ar y Bil Iechyd Meddwl, y dywedodd y Trefnydd ei bod yn disgwyl iddo gael ei osod yr wythnos hon, at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i graffu arno. Cytunwyd ar 7 Hydref fel y terfyn amser adrodd er mwyn caniatáu yr amser mwyaf posibl ar gyfer gwaith craffu gan bwyllgor cyn y ddadl ar yr un diwrnod.

## 5 Comisiwn y Senedd

### 5.1 Aelodaeth Comisiwn y Senedd

Yng ngoleuni'r lle gwag ar Gomisiwn y Senedd, penderfynodd y Pwyllgor Busnes y dylid gwahodd y Grŵp Llafur i enwebu Aelod i fod yn bedwerydd Aelod o Gomisiwn y Senedd.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyflwyno cynnig i'w ystyried yn y Cyfarfod Llawn yfory, yn amodol ar gadarnhad yr Aelod i'w enwebu.

## 6 Amserlen y Senedd

### 6.1 Dyddiadau Toriadau

Cadarnhaodd y Pwyllgor Busnes y dyddiadau ar gyfer Hanner Tymor y Gwanwyn a Thoriad y Pasg 2026, sy'n rhedeg hyd at ddiwedd y Senedd bresennol.

## 7 Unrhyw Fusnes Arall

Nododd y Pwyllgor Busnes fod Laura Anne Jones AS wedi dweud nad yw'n dymuno manteisio ar y cynnig o le ar y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. Cytunodd yr Aelodau i ddychwelyd at y mater yn y cyfarfod dilynol.